. **CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU**
**21/02/2019 NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.00PM**

1. **CROESO'R CADEIRYDD**
Croesawodd y Gyngh. Angharad Jones bawb i'r cyfarfod misol.
2. **YN BRESENNOL:** Y Gynghorwraig Angharad Jones (Cadeirydd); Y Cynghorydd Gareth Owen (Is-Gadeirydd); Y Gynghorwraig Laura Jones; Y Gynghorwraig Mair Jones; Y Cynghorydd Non Jones; Y Cynghorydd Alun Price-Jones; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies; Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans; Eleri Thomas, Clerc.
3. **YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd John Jones, y Cynghorydd Wil Lewis, y Cynghorydd Doug Rowbotham & Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.
4. **DATGAN DIDDORDEB**
Dim wedi'u datgan.
5. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU: heb fod yn berthnasol.**
6. **CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD O'R 17eg O Ionawr 2019**
**CYNIGIWYD** (y Gyngh. Laura Jones ) **EILIWYD** (y Cyngh. Gareth Owen) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 17eg o Ionawr 2019 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones arwahan i:
   **6.1** **8.6.2 Allwedd Cwpwrdd**: Neuadd Pantyfedwen, holwyd pwy oedd ceidwad yr allwedd; roedd y cwpwrdd yn dal offer yn ymwneud â Dathliadau'r Mileniwm ac yr oedd angen ail-drefnu'r arddangosfa. Roedd Pwyllgor y Neuadd o'r farn bod 16 allwedd ym meddiant y Cyngor Cymuned, a oedd â cyfrifoldeb am y cwpwrdd. Cytunwyd i gysylltu â Mrs Jen Ebenezer i geisio gwybodaeth pellach. Nid oedd Pwyllgor y Neuadd o'r farn bod gan y Cyngor Cymuned 16 allwedd yn gysylltiedig â Neuadd Pantyfedwen ym meddiant y Cyngor Cymuned. Cytunwyd i ofyn am gyngor pellach dan law Mr Wyn Ebenezer, os oedd angen ac nid Mrs Jen Ebenezer.

7. **MATERION YN CODI**
   **7.1 Cais am Bont i gerddwyr ym Mhontrhydfendigaid**
   Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion, ers y cyfarfod safle o'r 9fed Chwefror 2018 rhwng Mr Igho Emeseh, CS Ceredigion a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned. Trafodwyd codi pont i gerddwyr ger y bont bresennol a rhyddhau tir at y diben hwn. ***PENDERFYNWYD anfon cais pellach am wybodaeth dan law'r Cyngor Sir.***
   **7.2 Cais i osod palmant ger y Lloches-Bws, Penrhiw, Ffair Rhos**
   Gwnaeth y Gyngh. Clare Hughes gyfeirio Mr Igho Emeseh, i'r cais i osod palmant ger y Lloches Bws ardal Penrhiw, yn ystod y cyfarfod safle yn ymwneud â phrif bont y Pentref o'r 9fed Chwefror 2018. Cytunodd perchnogion Penrhiw i gyfrannu rhan o dir at y diben hwn. ***Adroddodd y Gyngh. Laura Jones fod datblygiadau ar ddigwydd.***

**7.3** **Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen: Arolwg Rospa 2018**: wedi cymryd lle'n ystod Mehefin 2018. **Cytunwyd:** Y Cynghorydd Doug Rowbotham i glustnodi sylw pellach i'r ddogfen. *Dim datblygiadau.*

**7.4** **Prynu Meinciau**: i'w lleoli: un wrth ymyl y Gofeb Rhyfel, i nodi terfyn y Rhyfel Byd Cyntaf ac un arall yn agos at 12/13 Maesydderwen: Prynwyd 2 fainc dan law *Birch Plastics. Mynegodd y Gyngh. Angharad Jones ddiolchiadau i'r Cyngh. Ifan Lloyd-Davies am wneud trefniadau ar gyfer prynu'r meinciau.*

**7.5** **Gohebiaeth gan Mr Haydn Lewis,** Cyngor Sir Ceredigion, yn ystod y cyfarfod diwethaf, yn gofyn am ragor o wybodaeth am y llwybr cerdded cyhoeddus, a arferai rhedeg drwy darn o dir a elwir yn Glan-yr-Afon. Cytunwyd bod Cynghorwyr yn ymweld â'r ardal dan sylw, i geisio gwybodaeth. *Dim Datblygiadau.*

**7.6** **Arwydd Heol – Gostwng Cyflymder:**
Cysylltwyd â Rebus, Ystad Ddiwydiannol, Aberystwyth; gallai dylunio arwydd trionglog beri'n her; i ddatgan y geiriau - ARAF - SLOW. Derbyniwyd dyfynbris o £196. Bydd y Gyngh. Laura Jones yn ymwneud â'r trefniadau.

**7.7** **Y Cynghorydd Clare Hughes** wedi ei holi gan rai pobl ifanc y pentref tybed a ellid defnyddio darn o dir, o fewn y pentref at ddibenion beicio. **PENDERFYNWYD** gadael y mater ar y bwrdd.

**7.8** **Camfeydd: Llwybr cerdded sy'n arwain o'r Ysgol i Ffair Rhos:** Mae angen sylw ar 3 camfa, mater a godwyd gan Mrs N Jones yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Ystrad Fflur. Adroddwyd at sylw Mr Haydn Lewis, Cyngor Sir Ceredigion. Hefyd, atgoffwyd y Cyngor Sir o gais y llynedd sef, 4 camfa sy'n rhedeg drwy'r parc carafanau; Lôn Dywyll X1 camfa; Tynrhos i Tanrhydiau X1 camfa. *Disgwylir ateb.*

**7.9** **Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Ystrad Fflur**: wedi ei fabwysiadu'n 2009 gan y Cyngor Cymuned ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cytunwyd i roi sylw pellach i'r mater yn ystod y cyfarfod canlynol.

**7.10** **Cinio Blynyddol** y Cyngor Cymuned: cynhelir ar ddydd Sadwrn 9 Mawrth 2019 yn y Llew Du. Dosbarthwyd y fwydlen.

## 8. GOHEBIAETH

### 8.1 Mynyddoedd Cambria

Yn gofyn am gymorth parthed y Prosiect Arwyddion Mynyddoedd Cambria (MC). Ym 2018 fe wnaeth y fenter MC ymgynghori ag unigolion ar draws ardal Mynyddoedd Cambria yn gofyn tybed a fyddent yn hoffi gweld arwyddion Mynyddoedd Cambria yn yr ardal. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol. Y rheswm dros arddangos arwyddion Mynyddoedd Cambria oedd codi ymwybyddiaeth o FC ymysg y boblogaeth leol ac ymwelwyr; yn rhan o ddatblygiad Mynyddoedd Cambrian fel cyrchfan; annog ymwelwyr i aros yn y cymunedau yn hytrach na mynd heibio, yn enwedig yn y cymunedau mynediad ee Llanymddyfri; Llanwrtyd a Llanbedr PS; cefnogi busnesau lleol gyda brandio ee bwyd a diod/ cynhyrchwyr/llety. **PENDERFYNWYD** i geisio gwybodaeth pellach - gofyn sawl arwydd sydd ar gynnig ar gyfer Pontrhydfendigaid a Ffair Rhos a phwy fydd yn cwrdd â'r gost. Ffafriwyd Opsiwn 2.

**8.2** **Dyfodol Cambria** : Gohebiaeth gan Charlie Falzon ynglŷn â Menter Mynyddoedd Cambria. Mae Dyfodol Cambria'n ystyried opsiynau ar gyfer rhyw fath o ddynodiad â cydnabyddiaeth cenedlaethol ar gyfer Mynyddoedd Cambria, ardal sy'n cynnwys tua 50 o gynghorau cymuned. Nid oes unrhyw fath o ddynodiad penodol yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid iddo fod yn seiliedig ar faterion lleol a rhaid bod pobl yn ganolog iddo. Gwahoddwyd Cynghorwyr i fynychu cyfarfod anffurfiol yn Neuadd Goffa Tregaron ar ddydd Llun 4 Mawrth 2019 rhwng 7pm a 8.30pm. Dywedwyd bod cyfarfod arall ynglŷn â menter Mynyddoedd Cambria wedi'i drefnu o fewn y Pentref ar gyfer 25ain Mawrth 2019.

**8.3** **Yn sgîl cyhoeddiad cynllun ddrafft Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus** a'r Ymgynghoriad Cyheoddus a ymgymerwyd yn hydref 2018 mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ystyried sylwadau a dderbyniwyd. Cyhoeddir y cynllun terfynol yng Ngwanwyn/Haf 2019 ac ar gael ar y we ac yn swyddfeydd y Cyngor Sir.

**8.4** **Ymgynghoriad Cyhoeddus** mewn perthynas â'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus bresennol yng Ngheredigion: Er mwyn cyflwyno dull strategol o ddarparu toiledau ledled Cymru, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi Strategaeth Toiledau lleol ar gyfer eu hardal. Mae darparu toiledau â mynediad iddynt yn fater sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd. Mae diffyg cyfleusterau toiled digonol yn cael effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol unigolyn ac yn bwysig i rai grwpiau o fewn cymdeithas; gallai darpariaeth toiledau gwael gyfrannu at arwahanrwydd cymdeithasol ac anweithgarwch yn ogystal ag effeithio ar eu gallu i gynnal annibyniaeth ac urddas nes ymlaen mewn bywyd. Felly mae'n ofynnol i GS Ceredigion ymgynghori â'r cyhoedd, Cynghorau Tref a Chymuned, cyrff preifat, busnesau ac ati o ran eu hanghenion a'u dyheadau ar gyfer darparu cyfleusterau cyhoeddus yn y dyfodol. Dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr 2ail Rhagfyr 2018 am gyfnod o 12 wythnos lle bydd yr ymarfer yn cael ei gynnal trwy holiadur sydd ar-lein ar wefan yr Awdurdod https://www.surveymonkey.co.uk/r/WBCMH5Y. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad hwn yn cynorthwyo i ddatblygu strategaeth a fydd yn gwneud darpariaeth toiledau cyhoeddus ar draws y Sir.
Dywedwyd nad oedd y cynllun Cyfleusterau Cyhoeddus y Llew Du, Bont, a drefnwyd gan Jasmine Wilson, CS Ceredigion, ar gael mwyach. Cwblhawyd y ffurflen; gresynwyd y ffaith nad oedd cyfleusterau cyhoeddus ar gynnig ym Mhontrhydfendigaid.

**8.5** **Ymddiriedaolaeth Ystrad Fflur Prosiect Camau Bach**; bu i aelodau fynychu diwrnod agored i'r gymuned yn y Pafiliwn ar ddydd Sadwrn 9 Chwefror 2019. Mae'r Ymddiriedolaeth, Sefydliad y Tywysog a phartneriaid eraill y prosiect wrthi'n adfywio safle hanesyddol Abaty Ystrad Fflur a'r tirweddau sydd o'i amgylch, a chanolbwynt y gwaith yw adeiladu fferm Mynachlog Fawr. Bwredir i'r safle ddod yn ganolfan a fydd yn adrodd hanes hir a chymhleth Cymru a'i diwylliant yng nghefn gwlad. Penderfynwyd gwahodd y Swyddog Prosiect i gyfarfod dyfodol y Cyngor Cymuned.

8.6 **Llywodraeth Cymru:** Cytunwyd ar gyllid o £35,000 ar gyfer 2019-20 i helpu cynghorau sydd eisoes yn ystyried opsiynau ar gyfer cyd-weithio o amgylch cyfres o themâu craidd i ddatblygu syniadau ymlaen ar lefel ymarferol.

8.7 **Posteri i'w harddangos dan law Elin Jones AC** sy'n hysbysebu sut y gall etholwyr gysylltu â hi i drefnu apwyntiad syrgeri ac yn cynnig mynychu cyfarfod o'r Cyngor Cymuned i gynnig cefnogaeth.

8.8 **Posteri i'w harddangos dan law Ben Lake AS yn** hysbysebu cymorthfeydd y dyfodol. Diolchodd hefyd i Gynghorwyr Cymunedol am y gwaith a wnant.

8.9 **Gohebiaeth arall: Er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

9.1 **Cyflog y Clerc: Ionawr 2019**: £193.83 (Gross)

9.2 **Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir.

9.3 **Aelodaeth Flynyddol** Un Llais Cymru £112

9.4 **Cytunwyd i ofyn i Mrs Enid Hughes** a fyddai'n barod i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Mewnol unwaith eto eleni.

**10. CYNLLUNIO**

10.1 **Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

11.1 **Y mae Eisteddfod Ysgol Henry Richard Tregaron** ar ddigwydd.

11.2 **Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch at Mr Michael Morgan, Felinfach** am ail-lenwi'r blwch diffibriliwr, a leolir ger y Siop Bentref, bron

yn syth ar ôl defnyddio'r cynnwys. Hefyd diolchwyd i'r Cyngh. Gareth Owen am ailosod y colfachau. Bydd Y Cynghorydd Doug Rowbotham yn archebu rhannau ychwanegol.

11.3 **Adroddodd y Cyngh. C Hughes** golau stryd diffygiol ger y bont ym Mhontrhydfendigaid. Gellir adrodd pryderon ynghylch goleuadau stryd yn uniongyrchol at sylw Cyngor Sir Ceredigion ar 01545 572 572.

11.4 **Trafodwyd y posibilrwydd o brynu cerrig mân** i orchuddio'r lôn yn arwain o Arosfa i Siop Florida.

11.5 **Mae Cyfeillion a Theulu "sgoriwr gôl mwyaf erioed tref Aberystwyth"** yn nodi beth fyddai ei ben-blwydd yn 70 oed gyda thaith 70 milltir (112km) rhwng ei gyn glybiau. Bu farw Striker David "Dias" pennaeth ysgol o ganser yn 39 oed. Bydd y daith, a fydd yn codi arian ar gyfer Canser McMillan yn teithio trwy Bontrhydfendigaid ar ddydd Gwener 8fed Mawrth 2019 am 9.45am. Mae'r daith 4 diwrnod yn gorffen ar yr 11eg Mawrth â dathliad ym Mhontrhydfendigaid, lle bu'n dysgu ac yn chwarae pêl-droed.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 8.30 pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 21ain o Fawrth 2019 at 7pm.**

= = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = (Llofnod/Dyddiad)